WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Gorffennaf 2007

Jeremy Colman, Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Cloriannu gwaith archwilio gwerth am arian ers datganoli

## Cyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cloriannu gwaith archwilio gwerth am arian ers datganoli | 3 |
| Mae'r Pwyllgor Archwilio yn craffu'n ddiduedd ar wariant Llywodraeth y Cynulliad | 3 |
| Cyflawnodd y Pwyllgor waith dilynol o ran gweithredu ei argymhellion | 7 |
| **Atodiad A** | |
| Adroddiadau gwerth am arian a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Archwilio | 9 |

# Cloriannu gwaith archwilio gwerth am arian ers datganoli

1. Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno'r papur hwn, sy'n nodi cyflawniadau allweddol gwaith gwerth am arian Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru ers datganoli yn 1999.

## Mae'r Pwyllgor Archwilio yn craffu'n ddiduedd ar wariant Llywodraeth y Cynulliad

2. Diben y Pwyllgor Archwilio yw sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad, ei chyrff cyhoeddus a chryff y GIG yn gweithredu yn unol â'r safonau uchaf posibl o ran rheoli eu materion ariannol ac wrth weithredu polisi. Mae'n dwyn uwch swyddogion i gyfrif, ac wrth wneud hynny, mae'n darparu sicrwydd i bobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth. Mae'r Pwyllgor hefyd yn atal gwastraff. Mae hefyd yn gweithredu er lles y cyhoedd oherwydd ei allu i lunio argymhellion a rhoi arweiniad i sector cyhoeddus Cymru i wella ei waith.
3. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu'n amhleidiol, ac yn unfrydol yn draddodiadol, i roi darlun diduedd o weithrediad polisïau. Caiff ei allu i wneud hynny ei wella'n fawr gan ei hawl i ystyried tystiolaeth a dadansoddiadau cynhwysfawr mewn adroddiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol, ac i seilio'i waith o holi tystion arnynt.
4. Un o brif gryfderau'r Pwyllgor yw ei allu i ddefnyddio gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, p'un ai mewn adroddiadau a fwriedid i ddarparu sail ar gyfer sesiwn cyflwyno tystiolaeth neu wrth ystyried materion a godwyd mewn gohebiaeth, megis ymatebion Llywodraeth y Cynulliad i'w argymhellion. Mae'n ychwanegu at effeithiolrwydd y Pwyllgor, a hefyd yn cynyddu awdurdod adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol.
5. Ar rai adroddiadau, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn mwy nag un cyfarfod. Wrth gynnal ymchwiliadau yn y sector iechyd a'r sector addysg, yn arbennig, mae cynnal mwy nag un sesiwn cyflwyno tystiolaeth wedi galluogi'r Pwyllgor i weithredu ar faterion o safbwynt y sawl sydd yn y canol yn gweithio i gyflawni nodau strategol Llywodraeth y Cynulliad yn ogystal â'r sawl sy'n darparu ar y rheng flaen.[1]

[1] Mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu'r dull hwn wrth archwilio, er enghraifft, *Addysg bellach yng Nghymru*; *Esgeuluster clinigol yn y GIG yng Nghymru*; a *Rheoli Absenoldeb oherwydd salwch gan Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru*

6. Wrth gynnal ei archwiliadau, mae'r Pwyllgor wedi cymryd tystiolaeth gan ystod eang o dystion. Ar y cyfan, bu tystion yn Swyddogion Cyfrifyddu o gyrff cyhoeddus, megis Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth y Cynulliad, Cyfarwyddwr GIG Cymru a Phrif Weithredwyr y cyrff cyhoeddus a ariannwyd gynt gan y Cynulliad megis Awdurdod Datblygu Cymru, ELWa a Chyngor Celfyddydau Cymru. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor wedi holi cynrychiolwyr o'r diwydiant fferyllol ac, mewn tri achos [2], casglodd dystiolaeth gan bobl a oedd wedi chwarae rôl bwysig yn y materion dan sylw ond a oedd wedi symud ymlaen neu ymddeol ers hynny.

7. Yn draddodiadol mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod yn fisol tra bod y Cynulliad Cenedlaethol yn eistedd. Cynhaliodd y Pwyllgor dri o'i gyfarfodydd y tu allan i Gaerdydd: yn y Drenewydd, Abertawe ac yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn Llanarthne.

8. Mae ymchwiliadau'r Pwyllgor wedi arwain at 52 o adroddiadau cyhoeddedig ar werth am arian hyd yma. Mae'r adroddiadau wedi ymdrin ag ystod lawn o weithgareddau Llywodraeth y Cynulliad. O fewn pob maes pwnc, bu nifer o sefydliadau gwahanol yn destun craffu archwilio. Er enghraifft, mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd ym maes Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg wedi archwilio'r sefydliadau canlynol - Cadw, Cyngor Celfyddydau Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru ac Amgueddfa Cymru.

9. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud 634 o argymhellion yn ei adroddiadau; o'r 606 o argymhellion y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymateb iddynt[3], derbyniwyd 595 (98 y cant) yn llawn. Yn ogystal â'i adroddiadau gwerth am arian, mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried materion sy'n codi o'm gwaith archwilio ariannol, ac yn cyflwyno adroddiadau ar y materion hynny'n rheolaidd.

## Mae gwaith y Pwyllgor yn cael effaith o ran gwella'r defnydd o arian cyhoeddus a darparu gwasanaethau

10. Nod argymhellion y Pwyllgor yw helpu cyrff a archwilir i wella'u perfformiad a sicrhau gwell gwerth am arian, yn cynnwys y cwmpas ar gyfer sicrhau arbedion ariannol. Mae nifer o ffyrdd y mae gwaith y Pwyllgor wedi cael effaith ariannol. Ymhlith y rhain mae arbedion arian parod uniongyrchol lle mae archwiliadau wedi nodi cyfle i wella systemau rheoli ariannol neu lle gellir cyflawni cynnydd mewn refeniw. Mewn achosion eraill, mae'r effaith ariannol yn adlewyrchu gwelliannau effeithlonrwydd, megis darparu'r un gwasanaeth am lai o arian neu o fewn amserlen fyrrach. Mae Ffigur 1 yn dangos yr ystod o effeithiau ariannol posibl a nodwyd gan adroddiadau'r Pwyllgor.

---

[2] *Morglawdd Bae Caerdydd,Canolfan Gelf Weledol Cyngor Celfyddydau Cymru,* ac adroddiad archwilio ariannol ar daliad afreolaidd a wnaed i gyn Gyfarwyddwr Cynorthwyol Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru

[3] Nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi ymateb hyd yma i 28 o argymhellion a wnaed tua diwedd yr ail Gynulliad

**Ffigur 1: Enghreifftiau o effeithiau ariannol posibl o adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio**

| Math o effaith ariannol | Manylion |
|---|---|
| Gwario llai | Canfu Digolledu ffermwyr am dwbercwlosis buchol yng Nghymru [Chwefror 2004] fod y Cynulliad wedi talu tua £2.6 miliwn yn fwy mewn taliadau digolledu nag y byddai wedi'i wneud pe bai'r prisiad wedi bod yn fwy cyson â gwerth y farchnad. |
| Prynu'n well | Amlygodd Caffael meddyginiaethau gofal sylfaenol [Awst 2004] y gellid bod wedi cyflawni hyd at £50 miliwn o arbedion trwy gontractau wedi'u canoli ar gyfer tua 300 feddyginiaethau a brynwyd yn 2001. |
| Atal/lleihau gwastraff | Canfu Rheoli ystad y GIG yng Nghymru [Awst 2002] y tanddefnyddir pump y cant o'r ystad, a bod tri y cant yn wag mewn gwirionedd. Amcangyfrifodd fy rhagflaenydd y gellid arbed tua £25 miliwn y flwyddyn trwy reoli safleoedd a gaiff eu tanddefnyddio yn well. |
| Cynyddu incwm/ adennill arian sy'n daladwy | Amcangyfrifodd Mwyhau'r incwm o daliadau presgripsiwn [Tachwedd 2001] y collwyd £15 miliwn y flwyddyn o ganlyniad i ganiatáu eithrio unigolion nad ydynt yn bodloni'r meini prawf perthnasol rhag taliadau presgripsiwn. Dangosodd adroddiad y Pwyllgor ar Gyllid GIG Cymru 2004 y bu cynnydd o ran lleihau twyll fferyllol o £15 miliwn i £7 miliwn. |

11. Yn ogystal ag arbedion ariannol, mae'r Pwyllgor wedi cael effaith sylweddol o ran helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pobl yng Nghymru. Ym mis Gorffennaf 2006, pleidleisiodd y Cynulliad Cenedlaethol i'm gwahodd i gynnal ymchwiliad i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Gwnaethpwyd y cais hwn oherwydd pryderon ym meysydd perfformiad, newidiadau cyflym mewn arweinyddiaeth, methiannau caffael, digwyddiadau andwyol yn effeithio ar gleifion a honiadau ynglŷn â marwolaethau y gellid bod wedi'u hosgoi. Dangosodd fy adroddiad fod problemau'r gwasanaeth ambiwlans yn hirsefydlog ac yn ddwfn. Fodd bynnag, deuthum i'r casgliad hefyd bod sail i fod yn obeithiol, gan fod gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gyllid digonol ar gyfer ei gwaith o ddydd i ddydd, ac mae ei chynllun moderneiddio yn ateb yr holl heriau y mae angen eu hwynebu i wella'r gwasanaeth. Roedd fy adroddiad yn cynnwys 28 o argymhellion i wella gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru. Ym mis Mawrth 2007, cyhoeddodd y Pwyllgor Archwilio ei adroddiad ei hun ar y gwasanaeth ambiwlans; gan gymeradwyo fy argymhellion a gwneud wyth argymhelliad pellach ei hun. Mae'n werth nodi y derbyniwyd y ddau adroddiad hyn yn hollol gadarnhaol fel adroddiadau sy'n dangos y ffordd ymlaen yn hytrach na bod yn sail i osod y bai. Mae hefyd yn galonogol iawn nodi bod Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru bellach yn nodi amseroedd ymateb gwell o lawer i alwadau brys.

12. Galwodd adroddiad y Pwyllgor ar amseroedd aros y GIG yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005, am ymagwedd fwy strategol tuag at leihau

amseroedd aros hir i gleifion, a mynd i'r afael â'r rhesymau sylfaenol dros amseroedd aros hir. Cynhwyswyd adroddiad y Pwyllgor fel enghraifft yn adroddiad y Ganolfan Craffu Cyhoeddus ar Graffu Llwyddiannus a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2006. Casgliad yr adroddiad oedd bod y Pwyllgor Archwilio yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau newid sylweddol yn ymagwedd Llywodraeth y Cynulliad tuag at wella amseroedd aros i gleifion yng Nghymru, a'i ffocws ar hynny." Amlygodd ei hadroddiad dri "pwynt dysgu":

- y manteision i gorff lleyg megis y Pwyllgor o adeiladu ar sail adroddiad gan sefydliad proffesiynol, megis Swyddfa Archwilio Cymru;
- defnyddioldeb cydweithredu rhwng pwyllgorau gydag arbenigeddau gwahanol (cyflawnodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad waith craffu pellach ar y pwnc hwn yn ddiweddarach yn 2005);
- y potensial i gyrff craffu effeithio ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy roi cyngor adeiladol.

**13.** Mae gwaith y Pwyllgor hefyd wedi canolbwyntio ar ddarparu gwelliannau i'r amgylchedd ar yr un pryd â sicrhau arbedion ariannol. Er enghraifft, dangosodd adroddiadau'r Pwyllgor ar *Rheoli Ynni a Dŵr yn y Sector Addysg Uwch yng Nghymru* [Tachwedd 2005] a *Rheoli Ynni'r GIG yng Nghymru* [Hydref 2006] sut y gall cyrff cyhoeddus wella eu defnydd o gyfleustodau allweddol a'u trefniadau caffael ar eu cyfer. Gall gwell trefniadau rheoli ynni, yn cynnwys camau syml megis diffodd goleuadau a throi thermostatau i lawr, gyfrannu at newid yn yr hinsawdd a chefnogi ymdrechion cyrff cyhoeddus i fod yn fwy amgylcheddol gynaliadwy. Gellir defnyddio arbedion ariannol o well trefniadau rheoli ynni i wella gwasanaethau rheng flaen.

**14.** Mae'r Pwyllgor hefyd wedi helpu i wella'r ffyrdd y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn rheoli risg. Mae'r Pwyllgor wedi pwysleisio'n gyson nad oes unrhyw beth o'i le ar y sector cyhoeddus yn cymryd risgiau, ond bod angen i gyrff cyhoeddus ddeall y risgiau hynny a mynd i'r afael â hwy. Er enghraifft, yn *Ariannu ar gyfer Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru* [Ebrill 2006] nododd y Pwyllgor wersi o'r ffordd yr oedd Awdurdod Datblygu Cymru, y Bwrdd Croeso a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi ac yn rheoli'r risgiau cysylltiedig, ac argymhellodd y dylai cyrff cyhoeddus gydweithio'n agosach i asesu risg a monitro cynnydd ar y cyd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi atgyfnerthu ei threfniadau arfarnu a chymeradwyo arian ar gyfer prosiectau, yn ogystal ag atgyfnerthu ei dull o reoli a monitro risgiau.

**15.** Mae gwaith y Pwyllgor hefyd wedi helpu i wella amodau gwaith staff sy'n ymwneud â'r broses o ddarparu gwasanaethau. Yn ei adroddiad ar *Diogelu staff y GIG rhag Trais ac Ymddygiad Ymosodol* [Mawrth 2006] roedd y Pwyllgor yn bryderus iawn o'r ffaith y cafwyd 22 o achosion o drais yn erbyn staff y GIG yng Nghymru bob diwrnod, ar gyfartaledd, yn 2003-04. Gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion i helpu i amddiffyn staff yn well rhag trais, er enghraifft drwy gynnal gwell asesiadau o gleifion risg uchel. Yn dilyn yr adroddiad, gwnaed gwelliannau arfaethedig o ran asesu risgiau cleifion, yn enwedig trwy gynlluniau pasbort lle y rhennir gwybodaeth ynglŷn â chleifion gyda hanes o drais ymysg Ymddiriedolaethau'r GIG.

**16.** Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cyflwyno adroddiad ar reoli absenoldeb staff oherwydd salwch yn y GIG [Awst 2004], Addysg Bellach [Tachwedd 2005], ac yng

Nghynulliad Cenedlaethol Cymru [Ionawr 2007]. Nododd y cyntaf o'r ddau adroddiad hyn rai gwendidau sylweddol ac anghysondeb cyffredinol yn y modd y rheolir absenoldeb staff oherwydd salwch ar draws y meysydd hyn o'r sector cyhoeddus. Yn ei archwiliad diweddaraf o reoli absenoldeb oherwydd salwch yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r effaith gadarnhaol y gall cymhwyso polisïau a gweithdrefnau cadarn ei chael, gan fod y Cynulliad Cenedlaethol wedi cyflawni lleihad sylweddol mewn lefelau absenoldeb staff oherwydd salwch rhwng 2004 a 2005. Pwysleisiodd bob un o'r adroddiadau hyn bwysigrwydd polisïau sy'n cefnogi iechyd a lles staff: er enghraifft trwy helpu staff i gyflawni cydbwysedd bywyd/gwaith a thrwy reolwyr llinell mwy cefnogol a gwasanaethau iechyd galwedigaethol. Mae fy staff yn cyflawni gwaith dilynol lleol ar hyn o bryd ar reoli absenoldeb oherwydd salwch o fewn Ymddiriedolaethau'r GIG unigol a byddaf yn cyflwyno adroddiad ar ganfyddiadau'r gwaith hwn i'r Pwyllgor.

17. Mae gwaith y Pwyllgor wedi cael budd o sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru, a gyfunodd staff a swyddogaethau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (Cymru) a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru. Mae fy mhwerau newydd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yn rhoi'r cyfle i mi archwilio a chyflwyno adroddiad ar wariant a darpariaeth ar draws systemau cyfan yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru. Adlewyrchwyd y gallu hwn i archwilio'n fanylach rôl cyrff sector cyhoeddus lleol wrth ddarparu rhaglenni a blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn adroddiadau diweddar y Pwyllgor, megis Mynediad Cyhoeddus i Gefn Gwlad, a'r Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd. Byddai wedi bod yn sylweddol anos i wneud cyfiawnder â'r materion cymhleth hyn heb fy mhwerau i gael mynediad mwy uniongyrchol i sefydliadau lleol, megis llywodraeth leol.

18. Cyflwynwyd adroddiad y Pwyllgor ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion [Gorffennaf 2006], ar ôl ystyried adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ar sail archwiliadau manwl o gyrff lleol, darparodd fy adroddiad linell sylfaen ar gyfer perfformiad cenedlaethol. Mewn rhai ffyrdd, mae'r adroddiad hwn yn enghraifft o'r continiwm rhwng fy ngwaith lleol ac astudiaethau cenedlaethol. Mae argymhellion y Pwyllgor wedi cael effaith, gyda Llywodraeth y Cynulliad yn llunio fframwaith gwasanaeth cenedlaethol diwygiedig, a chynllun gweithredu cenedlaethol sy'n ymgorffori argymhellion y Pwyllgor. Yn lleol, bu'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau eraill y GIG, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill, lunio eu cynlluniau gweithredu eu hunain sy'n nodi sut y byddant yn mynd i'r afael â'r bylchau allweddol mewn gwasanaethau a nodwyd gan fy adroddiad. Defnyddir adroddiad y Pwyllgor i lywio gwaith archwilio lleol yn y dyfodol; gall hyn, yn ei dro, arwain at adroddiad cenedlaethol dilynol ar gyfer y Pwyllgor. Gwelaf yr enghraifft hon o gysylltiadau adeiladol rhwng fy ngwaith lleol a chenedlaethol yn cael ei hefelychu mewn cyd-destunau eraill.

## Cyflawnodd y Pwyllgor waith dilynol ar weithrediad ei argymhellion

19. Nid yw llunio adroddiad yn golygu diwedd ar waith y Pwyllgor, a dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Pwyllgor wedi rhoi pwyslais penodol ar gyflawni gwaith dilynol ar weithrediad ei argymhellion. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn

ymateb i bob adroddiad, gan ganolbwyntio ar argymhellion y Pwyllgor. Arfer y Pwyllgor yw gofyn am fy nghyngor ar ddigonolrwydd yr ymateb - p’un a yw'n mynd i'r afael â naws yr argymhellion ac yn gweithredu arnynt yn llythrennol. Bu achlysuron lle nad oedd ymateb Llywodraeth y Cynulliad yn gwbl foddhaol, ac ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog perthnasol i ofyn am eglurhad neu gamau gweithredu pellach.

20. Yn dilyn ei hymateb, mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i fonitro'r cynnydd wrth weithredu argymhellion y Pwyllgor Archwilio trwy ei swyddog cydymffurfiaeth. Fel Archwilydd Cyffredinol, rwyf hefyd yn parhau i fonitro'r gwaith o weithredu'r argymhellion archwilio - a ph'un a yw hyn wedi cyfrannu at well gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Gall y gwaith monitro hwn arwain at archwiliadau ac adroddiadau pellach gan y Pwyllgor. Er enghraifft, roedd adroddiad y Pwyllgor ym mis Medi 2006 ar Merlin, system TGCh Llywodraeth y Cynulliad, yn cynnwys gwaith dilynol ar ei archwiliad cynharach o'r system flaenorol, Osiris, yn 2003. Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod Llywodraeth y Cynulliad wedi dysgu gwersi o Osiris ac wedi dilyn argymhellion y Pwyllgor wrth gaffael Merlin. Er hyn, roedd y Pwyllgor yn parhau i bryderu nad oedd y system yn diwallu anghenion Aelodau'r Cynulliad yn llawn, a bwriadaf gyflwyno adroddiad arall i'r Pwyllgor ar y broses o gyflwyno contract Merlin.

21. Un maes lle mae'r Pwyllgor wedi bod yn arbennig o awyddus i gyflawni gwaith dilynol ar ei argymhellion yw Amseroedd Aros y GIG. Dangosodd adroddiad dilynol y Pwyllgor ar Amseroedd Aros y GIG, ym mis Rhagfyr 2006, fod Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud cynnydd o ran gweithredu argymhellion y Pwyllgor i leihau amseroedd aros cleifion yn sylweddol, a bod strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer lleihau amseroedd aros yn unol ag argymhellion y Pwyllgor. Cyflawnodd adroddiad y Pwyllgor ym mis Mawrth 2007 ar Lawdriniaeth Ddydd y GIG waith dilynol manwl ar un o argymhellion y Pwyllgor yn ei adroddiad gwreiddiol ar Amseroedd Aros y GIG. Lle bo'n glinigol briodol, mae llawdriniaeth ddydd yn well i gleifion gan ei bod yn lleihau'r risg o heintiau a gafwyd yn yr ysbyty ac yn helpu osgoi arhosiad hir yn yr ysbyty. Mae hefyd yn gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau'r GIG, a byddai gwell cyfraddau o lawdriniaeth ddydd yn galluogi mwy o gleifion i gael eu trin, gan felly helpu i leihau amseroedd aros. Gwnaeth adroddiad y Pwyllgor gyfres o argymhellion a gynlluniwyd i wneud gwell defnydd o lawdriniaeth ddydd yng Nghymru.

**Jeremy Colman**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Gorffennaf 2007

## Adroddiadau gwerth am arian a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Archwilio

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| Diogelu a chadw treftadaeth adeiledig yng Nghymru | 10 Mawrth 2000 |
| Addysg Bellach yng Nghymru | 09 Mehefin 2000 |
| Rheoli'r gwaith o greu Awdurdod Datblygu Cymru estynedig | 24 Tachwedd 2000 |
| Cymorth Awdurdod Datblygu Cymru i fusnesau brodorol | 24 Tachwedd 2000 |
| TM ar Goleg Trydyddol Gwent | 01 Rhagfyr 2000 |
| Morglawdd Bae Caerdydd | 15 Chwefror 2001 |
| Trefniadau adeiladau'r Cynulliad | 03 Mai 2001 |
| Esgeuluster clinigol yn y GIG yng Nghymru | 16 Awst 2001 |
| Mwyhau incwm o daliadau presgripsiwn | 29 Tachwedd 2001 |
| Addysgu a hyfforddi gweithlu iechyd proffesiynol y dyfodol yng Nghymru | 24 Ionawr 2002 |
| Sicrhau dyfodol Bae Caerdydd | 16 Mawrth 2002 |
| Caffael yn y sector addysg bellach | 25 Ebrill 2002 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru: Canolfan Celfyddydau Gweledol | 19 Mehefin 2002 |
| Rheoli Ystad y GIG yng Nghymru | 01 Awst 2002 |
| Cronfeydd Strwythurol yr UE: sicrhau'r budd mwyaf posibl i Gymru | 05 Rhagfyr 2002 |
| Adnewyddu a gwerthu eiddo'r GIG | 12 Rhagfyr 2002 |
| Osiris: y contract Menter Cyllid Preifat ar gyfer TG yn y Cynulliad | 25 Chwefror 2003 |
| Adeilad newydd y Cynulliad Cenedlaethol: adroddiad diweddaru | 03 Ebrill 2003 |
| Parhau i Adfywio Bae Caerdydd | 24 Gorffennaf 2003 |
| Caffael meddyginiaethau gofal sylfaenol | 22 Awst 2003 |
| Rheoli'r ystâd addysg bellach yng Nghymru | 28 Awst 2003 |
| Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant: Rheolaeth Ariannol o Brosiectau Partneriaeth ac Arloesi a Phrosiectau Datblygu | 16 Rhagfyr 2003 |
| Rheoli a darparu gwasanaethau glanhau ysbytai | 18 Rhagfyr 2003 |
| Digolledu ffermwyr am dwbercwlosis buchol yng Nghymru | 05 Chwefror 2004 |
| Gwerthu ysbyty yng nghanolbarth Cymru | 02 Mawrth 2004 |
| Memorandwm diweddaru ar werthu ysbyty yng nghanolbarth Cymru | 02 Mawrth 2004 |
| Taliadau hwyr i ffermwyr yng Nghymru | 26 Mawrth 2004 |
| Adnewyddu tai sector preifat yng Nghymru | 13 Mai 2004 |
| Rheoli absenoldeb oherwydd salwch gan ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru | 05 Awst 2004 |
| Rheoli casgliadau Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Cymru | 17 Awst 2004 |
| Cronfeydd Strwythurol yr UE: adroddiad dilynol | 30 Tachwedd 2004 |

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru: rheoleiddio prosesau rheoli gwastraff | 23 Chwefror 2005 |
| Caffael yn y sector addysg uwch | 11 Ebrill 2005 |
| Amseroedd aros y GIG yng Nghymru | 12 Mai 2005 |
| Rheoli ynni a dŵr yn y sector addysg uwch yng Nghymru | 02 Tachwedd 2005 |
| Rheoli absenoldeb oherwydd salwch mewn sefydliadau addysg bellach yng Nghymru | 02 Tachwedd 2005 |
| Methiant Antur Dwyryd Llyn | 02 Tachwedd 2005 |
| Contract ar gyfer dosbarthu gwasanaeth allan o oriau meddygon teulu yng Nghaerdydd | 09 Mawrth 2006 |
| Diogelu staff Ymddiriedolaethau'r GIG rhag trais ac ymddygiad ymosodol | 22 Mawrth 2006 |
| Ariannu ar gyfer Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | 26 Ebrill 2006 |
| Gweinyddu Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant a'r Gronfa Ysgolion Gwell | 12 Gorffennaf 2006 |
| Gwasanaethau iechyd meddwl oedolion yng Nghymru | 19 Gorffennaf 2006 |
| Contract Merlin - galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i newid ei brosesau busnes trwy TGCh | 13 Medi 2006 |
| Rheoli Ynni'r GIG yng Nghymru | 04 Hydref 2006 |
| Cynnydd yn y sector addysg bellach: rheoli ystadau a chaffael | 04 Hydref 2006 |
| Cyfrifon 2004-05 Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant: Dysgu seiliedig ar waith | 01 Tachwedd 2006 |
| Amseroedd aros y GIG: adroddiad dilynol | 13 Rhagfyr 2006 |
| Rheoli absenoldeb oherwydd salwch yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru | 17 Ionawr 2007 |
| Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru | 07 Mawrth 2007 |
| Gwneud defnydd gwell o lawdriniaeth ddydd y GIG yng Nghymru | 14 Mawrth 2007 |
| Mynediad cyhoeddus i gefn gwlad | 21 Mawrth 2007 |
| Mynd i'r afael â Digartrefedd yng Nghymru: Adolygiad o effeithiolrwydd y strategaeth genedlaethol ar ddigartrefedd | 04 Ebrill 2007 |

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd CF10 3PA
Ffôn: 029 2026 0260
Ffacs: 029 2026 0026
Ffôn Testun: 029 2026 2646
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk